# Eich Newyddlen

Newyddlen y Tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

RHIFYN 14

Cynnwys Tachwedd 2024



## Rydym yn edrych ymlaen at groesawu tenantiaid newydd i Llys Elizabeth yn y Rhyl







**Safon Ansawdd Tai Cymru 2023** Tudalen 4

**Mynd allan yn ein cymunedau** Tudalen 8

**Paratoi ar gyfer y gaeaf** Tudalen 7

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk

tai@sirddinbych.gov.uk

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Croeso



## Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol

***Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen. Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddiddordeb ac yn ddefnyddiol i chi.***

Mae'n cynnwys erthyglau am y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud ar eich cartrefi a'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud allan yn ein cymunedau.

Rydym eisiau gwneud mwy i gefnogi cymunedau. Gwyddom y gall y gaeaf fod yn amser anodd i rai gyda'r tywydd oer a llai o olau dydd. Gall cael cymdogion gwych neu fyw mewn cymuned glos wneud gwahaniaeth mawr i'n lles a'n hymdeimlad o berthyn, yr ydym ni i gyd ei angen.

Mae gennym gefnogaeth ar gael i'ch helpu chi gyda chyllid a biliau'r cartref yn ystod misoedd yr hydref / y gaeaf felly darllenwch y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y newyddlen hon neu cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Rydym yn falch ein bod wedi gallu adeiladu cartrefi newydd o'r safon uchaf ar gyfer yr oes fodern yr ydym yn byw ynddi. Rydym yn croesawu ein cymuned newydd yn y Rhyl. Rydym hefyd yn gweithio ar raglen hirdymor i sicrhau bod ein holl eiddo yn parhau i ddarparu cartrefi saff a diogel ymhell i'r dyfodol.


Rydym yn derbyn sylwadau am sut caiff y newyddlen hon ei hanfon at yr holl gartrefi, ond rydym yn teimlo ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi'r wybodaeth i chi ac yn cadw mewn cysylltiad â'n cymunedau. Gwyddom y byddai'n well gan rai pobl dderbyn copi digidol ond rydym hefyd yn deall y byddai nifer ohonoch yn dal i groesawu'r fformat hwn felly rydym yn defnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu ac yn cadw'r costau mor isel â phosibl. Rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu cynnig dewis yn y fformat sydd orau i chi yn y dyfodol agos.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch â ni.

### Gellir ailgylchu'r 100% or newyddlen hon

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C006518

Unwaith y byddwch wedi darllen y newyddlen, gallwch ei rhoi ym mlwch uchaf eich Trolibocs sydd â cha ead glas.



## Yn y rhifyn hwn

### Tai Sir Ddinbych:


2 Neges gan Geoff
3 Neges gan DTARF
10 Dod i'n hadnabod ni
13 Llais y Sir


### Cymuned a Phobl:


8 Diweddariad Gwydnwch Cymunedol
9 Taflu goleuni ar ein Canolfannau Cymunedol
12 Croesawu tenantiaid newydd
16 Cost Cyngor Byw


### Y Wybodaeth Ddiweddaraf a Chyngor


4 Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 – Diweddariad
6 Cyngor ar leithder ac anwedd
7 Paratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf
14 Cyngor ar Gredyd Pensiwn




# Diweddariad gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

Helo bawb. Mae'r Ffederasiwn yn parhau i gyfarfod fel grŵp ac yn gwahodd rheolwyr o Dîm Tai Sir Ddinbych bob mis i drafod materion, pryderon ac unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth rydym yn ei gael ganddynt.



Rydym wedi cyfarfod ynglŷn â'r gwasanaeth atgyweirio, diogelwch nwy, diogelwch tân ac wedi clywed am waith datblygu cymunedol y tîm.

Rydym yn parhau i gydweithio gan hefyd sicrhau ein bod yn codi eich pryderon ac yn herio'r Tîm Tai am eu gwasanaeth.

Mae hwn yn gyfnod anodd i aelwydydd a chymunedau, felly rydym ni bob amser yma i helpu os byddwch angen unrhyw beth. Cysylltwch â ni.

Mae'r Ffederasiwn wedi cynrychioli holl denantiaid y Cyngor yn Sir Ddinbych ers 1996 ac mae'n bwysig i ni barhau i wneud hynny, felly mae croeso i chi ymuno â ni neu gysylltu ar unrhyw adeg.

**John, Chair DTARF**
**dtarf1@outlook.com**

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

## NEGESFWRDD

**I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**

Dydd Llun i ddydd Iau 9:00am-5:00pm,
Dydd Gwener 9:00am-4:30pm
**01824 706000**

Argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa **0300 123 3068**

Galw Gofal (Llinell Ofal)
**0300 123 6688**

Mynediad un pwynt ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth
**0300 456 1000**

Argyfwng nwy **0800 111 999**

Argyfwng trydan **0800 3163 105**

Galw Iechyd Cymru **111**

Floodline **0345 988 1188**

Type Talk **0345 602 6340**

# Cyflwyno'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd (SATC 2023) – Beth mae'n ei olygu i chi!

Yn ein newyddlen ddiwethaf, bu i ni gyflwyno'r SATC 2023 newydd, gan egluro beth mae'n ei olygu i chi a sut byddwn yn mynd ati i'w ddarparu. Yn y rhifyn hwn, roeddem eisiau rhannu mwy o wybodaeth gyda chi am yr hyn y mae'r safonau yn ei gynnwys a beth y mae'n ei olygu i chi.

### 1. Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2023?

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd LIC set newydd o safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da i denantiaid, sy'n addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol.

### 2. Beth yw'r prif bethau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau newydd

Er mwyn i ni fodloni safonau LIC, mae'n rhaid i'ch cartrefi:

- **Fod mewn cyflwr da**
  - Mae'n rhaid i'r waliau fod mewn cyflwr da, ac nid yn wan nac yn disgyn i lawr
  - Ni ddylech fod â thamprwydd yn eich cartref.
  - Dylai'r grisiau fod yn ddiogel.

- **Bod yn saff a diogel**
  - **Dylai drysau a ffenestri** fod yn saff a diogel. Byddwn yn dilyn canllawiau'r Heddlu Diogelu drwy Ddylunio i weld sut allwn ni wneud hyns.
  - **Diogelwch tân:** mae'n rhaid i gartrefi gael synwyryddion gwres a mwg.
  - Mae'n rhaid i chi gael ffordd hawdd a diogel i **ddianc os oes tân**
  - **Diogelwch nwy a gwresogi:** mae'n rhaid i gartrefi gael synhwyrydd carbon monocsid.
  - **Gwiriadau diogelwch yn y cartref:** os oes gan gartrefi systemau nwy, olew neu danwydd solet, mae'n rhaid i ni gynnal gwiriad diogelwch unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni roi copi i chi o'r gwiriadau diogelwch.
  - **Diogelwch trydanol:** dylai eich cartref gael gwiriad diogelwch trydanol bob 5 mlynedd, a byddwn yn rhoi copi i chi.

- **Ni ddylai fod yn rhy ddrud i'w wresogi. Ac ni ddylai fod yn niweidiol i'r amgylchedd.**
  - Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw gwresogi eich cartref yn costio gormod o arian. A sicrhau nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd.
  - Mae'n rhaid i'ch cartref adael i aer lifo drwyddo, yn enwedig mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
  - Dylai fod gan eich cartrefi osodiadau a chyfarpar sy'n atal dŵr rhag cael ei wastraffu. Gall hyn eich helpu i gadw eich biliau dŵr i lawr ac mae'n dda i'r amgylchedd

- **Yn cynnwys ardal amlbwrpas a chegin fodern**
  - Dylai'r ceginau fod yn llai na 16 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  - Dylai fod gan geginau newydd le ar gyfer popty, oergell a pheiriant golchi, a chyfarpar arall os oes angen.
  - Mae'n rhaid i loriau'r gegin fod yn rhai di-lithr.
  - Os nad oes unrhyw le i olchi a sychu dillad, dylem ddarparu peiriant sychu dillad.

- **Yn cynnwys ystafell ymolchi fodern**
  - Dylai'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau fod yn llai na 26 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  - Mae'n rhaid i'r ystafell ymolchi fod â llawr di-lithr.
  - ylent gynnwys cawod a bath os yw'n bosibl. Gall y gawod fod uwchben y bath.

- **Cyfforddus ac addas i'r sawl sy'n byw yno**
  - Dylai eich cartref fod â digon o le i fyw ynddo'n gyfforddus.
  - Lloriau – Pan fydd tenantiaid newydd yn symud i mewn, mae'n rhaid i'r holl ystafelloedd fod â'r math cywir o loriau a bod mewn cyflwr da.
  - Sŵn – Dylai'r waliau a'r ffenestri fod o ansawdd da, fel nad yw sŵn normal yn achosi unrhyw drafferth i chi.
  - Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y cartref yn addas i'ch anghenion, yn cynnwys tenantiaid anabl a hŷn.

- **Bod â gardd os yw'n bosibl**
  - Nid yw bob amser yn bosibl cael gardd gan ei fod yn dibynnu ar le rydych chi'n byw.
  - Dylech allu mynd i'ch gardd yn ddiogel ac yn hawdd.
  - Dylai fod llwybr i chi allu cerdded arno.
  - Os yw'n bosibl, dylem ddarparu lein sychu dillad, a dylai fod llwybr yn arwain ato.
  - Dylech fod â man storio y gellir ei gloi y tu allan. E.e. i storio beic neu offer gardd.

- **Bod â man braf y tu allan os yw'n bosibl**
  - Mae angen i ni geisio creu man braf y tu allan, sy'n hawdd i ofalu amdano.
  - Dylai'r gofod fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt.
  - Dylai fod digon o blanhigion a choed o gwmpas sydd hefyd yn gadael golau'r haul drwodd.
  - Os nad oes gennych chi eich gardd eich hun, dylem ddarparu digon o le storio y tu allan i chi ar gyfer beics, pramiau neu sgwteri symudedd.

### 3. Beth yw'r amserlenni?

**Dyma'r prif derfynau amser y byddwn yn gweithio tuag atynt:**

**31 Mawrth 2025:**

- Asesu cyflwr eich cartrefi fel ein bod yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud. I wneud hyn byddwn yn edrych ar y wybodaeth sydd gennym am eich cartrefi. Efallai bydd angen i ni ymweld â rhai o'ch cartrefi ond byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os bydd angen i ni wneud hyn.
- Creu cynllun a chanfod faint fyddai cael eich cartrefi i'r safon yn ei gostio. Mae'n rhaid i ni roi hwn i LIC.
- Gweithio'n agos â chi a dangos beth fyddwn ni'n ei wneud fel y gallwch chi ddweud eich dweud. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych.
- Diweddaru ein cynllun busnes i gynnwys unrhyw welliannau a gwaith sydd angen i ni ei wneud i gydymffurfio â safonau SATC 2023.

**31 Mawrth 2027:**

- Cynhyrchu ein Llwybrau Ynni Targed gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym o asesiadau eich cartref. Mae Llwybr Ynni Targed yn dangos i ni beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gan eich cartref system wresogi y gallwch chi fforddio i'w droi ymlaen.

**31 Mawrth 2034:**

- Mae'n rhaid i ni fodloni'r safonau hyn.

### 4. Beth ydych chi wedi'i wneud hyd yma?

Hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio drwy'r safonau SATC 2023 a rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd y gallwn ni ei rannu â chi ym mis Mawrth 2025. Ym mis Gorffennaf, bu i ni ddiweddaru Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar ein cynnydd a'r hyn yr oeddem am ei wneud nesaf.

I helpu i lywio'r gwaith, rydym hefyd wedi gwrando ar eich ymatebion yn yr arolwg STAR 2023 diweddaraf ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall sut yr hoffech i SATC 2023 gael ei siapio. Dros y misoedd nesaf, a thrwy gydol y rhaglen SATC 2023, byddwn yn cynnig cyfleoedd i chi ymgysylltu â ni a dweud wrthym beth sy'n bwysig i chi a'ch blaenoriaethau ar sut ydym yn darparu'r rhaglen hon i chi.

### 5. Sut fydd hyn yn cael ei ariannu?

Bydd y gwelliannau sydd eu hangen i fodloni'r safonau newydd yn cael eu hariannu gan ganran o Lwfans Atgyweiriadau Mawr LIC, cyllid grant arall a rhenti tenantiaid.

### 6. Sut allaf i gymryd rhan?

Rhan bwysig o'r safonau newydd hyn yw eich cyfranogiad a'ch ymgysylltiad yn y broses. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ac rydym yn gobeithio sefydlu grŵp gorchwyl gyda thenantiaid yn y dyfodol.

Os hoffech fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, neu'n rhan o grŵp gorchwyl o denantiaid, a'n cefnogi ni i roi'r SATC ar waith, cysylltwch â ni ar **01824 706000** neu anfonwch e-bost at **housing@denbighshire.gov.uk**

### 7. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth am beth mae'r safonau hyn yn ei gynnwys, ewch i https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyngor llwydni a chyddwysiad

Dyma ein hawgrymiadau i leihau llwydni ac anwedd yn eich cartrefi'r gaeaf hwn!

**Beth yw llwydni ac anwedd?**

Mae llwydni ac anwedd yn ymddangos yn eich cartref pan mae'r aer yn rhy wlyb.

Mae anwedd yn aml yn ymddangos ar ffenestri pan maent yn stemio. Mae hyn yn digwydd pan fydd aer cynnes, gwlyb yn dod i gysylltiad gydag arwyneb oerach.

Gall sbotiau llwydni du ddechrau tyfu yn eich cartref pan mae yna ormod o anwedd. Gall dyfu ar waliau, nenfydau a dodrefn.

Mae sbotiau du llwydni yn niweidiol i iechyd.

**O ble daw anwedd?**

Gall lleithder yn eich cartref ddod trwy goginio, sychu eich dillad tu mewn neu wrth gael cawod



neu fath. Gall y lleithder hwn greu anwedd yn eich cartref.

**Pethau pwysig i'w gwybod:**

Trwy gydweithio gallwn leihau llwydni ac anwedd yn ein cartrefi. Er mwyn helpu gyda hyn, cofiwch:

**Ein cyfrifoldebau ni i chi yw:**

- Ymateb yn brydlon i adroddiadau o lwydni ac anwedd.
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i chi i leihau anwedd yn eich cartref.

**Gallwch chi helpu trwy:**

- Ddilyn ein cyngor i leihau llwydni ac anwedd yn eich cartref.
- Adrodd unrhyw broblemau gyda llwydni ac anwedd yn eich cartref yn brydlon.
- Er mwyn rhoi gwybod am broblem, gallwch:

– Ffonio ni ar **01824 706000**

– E-bostio ni ar **tai@sirddinbych.gov.uk**

– Ymweld â ni ar-lein ar **www.taisirddinbych.co.uk/**

## Y newyddion da yw y gallwch leihau'r lleithder yn eich cartref drwy ddilyn yr argymhellion hyn!

**Awgrym 1:** Ceisiwch gadw eich cartref yn gynnes ar dymheredd cyson. Gadewch ddrysau mewnol ar agor er mwyn i aer allu llifo o amgylch eich cartref

**Awgrym 2:** Rhowch gaead ar eich sosbenni pan fyddwch chi'n coginio, a pheidiwch â defnyddio mwy o ddŵr nag sydd ei angen.

**Awgrym 3:** Defnyddiwch eich ffan echdynnu os oes gennych chi un. Os nad oes gennych chi un, agorwch ffenestr i adael y stêm allan.

**Awgrym 4:** Agorwch eich ffenestri pan fyddwch chi'n coginio, yn cael cawod neu fath. Pan fyddwch chi'n rhedeg bath, rhowch ddŵr oer i mewn yn gyntaf, yna ychwanegwch y dŵr poeth. Mae hyn yn lleihau stêm o hyd at 90%.

**Awgrym 5:** Os oes gennych system awyrellu yn eich ffenestri, sicrhewch eu bod ar agor er mwyn cynorthwyo â llif aer.

**Awgrym 6:** Os allwch chi, rhowch eich dillad y tu allan i sychu.

**Awgrym 7:** Os ydych chi'n sychu eich dillad tu mewn:

- Peidiwch â rhoi dillad gwlyb ar eich rheiddiaduron.
- Rhowch nhw yn yr ystafell ymolchi gyda'r gwres ymlaen.
- Defnyddiwch sychwr dillad.
- Caewch ddrws yr ystafell ymolchi a chadwch y ffenestr yn gil agored neu rhowch y ffan echdynnu ymlaen.

**Awgrym 8:** Os ydych chi'n defnyddio peiriant sychu dillad, sicrhewch fod gennych fent i'r tu allan, oni bai bod gennych beiriant sychu dillad cyddwyso.

**Awgrym 9:** Sychwch unrhyw ddŵr sydd ar:

- Eich ffenestri a sil ffenestri, yn enwedig yn y bore, ar ôl cael cawod neu fath, wrth goginio ac ati.
- Growt neu deils mewn ystafelloedd ymolchi a cheginau.
- Teils ar ôl cael cawod.
- Corneli'r bath. .

**Awgrym 10:** Peidiwch â rhoi dodrefn na gwelyau yn uniongyrchol yn erbyn wal er mwyn i'r aer allu cylchredeg



# Paratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf

Mae hi'n adeg honno o'r flwyddyn eto, mae hi'n dechrau oeri felly rydym yn dechrau troi'r gwres ymlaen! Dyma awgrymiadau i baratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf!

**Addasu'r tymheredd**

Yn ystod y gaeaf, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn argymell y dylech osod eich gwres ar 18 i 21 gradd canradd. Ceisiwch weld pa dymheredd sy'n gyfforddus i chi a'i gynyddu os oes angen.

Gwirio eich gwresogyddion

Unwaith y mae'r gwres ymlaen, rhowch ychydig o funudau iddo ddechrau gweithio. Yna, gwiriwch bob gwresogydd i weld a yw'n dechrau cynhesu. Os nad ydynt yn cynhesu, efallai bod angen edrych ar eich system wresogi. Isod, mae ambell broblem gyffredin a rhai atebion syml y gallech roi cynnig arnynt.

**Problemau cyffredin**

- Rhannau oer ar wresogyddion – os ydych chi'n sylwi ar rannau oer ar ben uchaf eich gwresogydd, efallai fod angen gollwng aer ohono. Rydym yn eich cynghori i gysylltu â ni os felly.

**Colli pwysedd**

Mae boeleri cyfunol nwy dan bwysedd, felly mae angen i'ch boeler fod tua 1 i 1.5 bar. Gwiriwch y mesurydd pwysedd – os yw'r pwysedd yn is na hyn, efallai y bydd angen cynyddu'r pwysedd.

Os ydych chi'n sylwi ar bwysedd isel, cysylltwch â'n contractwyr, Liberty, ar **0330 333 8384.**

**Gosodiadau amser**

Efallai fod eich thermostat a'ch amserydd wedi'u gosod i danio ar adegau penodol. Ar ddiwr-nodau cynhesach, gallwch droi'r thermostat yn is. Mae hyn yn atal eich gwres rhag dod yn ôl yn ystod cyfnod o dywydd oer.

Os nad yw eich boeler yn tanio'n awtomatig pan fyddech yn disgwyl iddo wneud, gwiriwch fod y thermostat wedi'i godi'n ei ôl.

## Awgrymiadau at y gaeaf

- Gall boeleri weithiau stopio gweithio os nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Rydym yn awgrymu i chi danio eich gwres canolog am o leiaf awr bob dydd trwy gydol y aeaf i sicrhau ei fod yn parhau i weithio heb drafferthion.
- Gall y dŵr yn eich pibellau tu allan rewi pan mae hi'n oer iawn. Gall hyn atal y boeler rhag gweithio a hyd yn oed achosi i'r pibellau fyrstio. Os felly, gallwch geisio toddi'r pibellau'n ofalus gyda dŵr cynnes.

## Pryd i ofyn am help

Os ydych chi wedi dilyn y cyngor uchod ac nad yw eich gwres canolog yn gweithio er hynny, ffoniwch Liberty ar **0330 333 8384.**

Cofiwch hefyd y bydd Liberty yn cynnal gwiriad bob blwyddyn i sicrhau bod eich boeler yn ddiogel ac yn gweithio'n effeithlon. Mae'n bwysig eich bod yn ateb eu galwadau ac yn gadael iddynt ddod i'ch cartref i wneud hyn.



Cymuned Community

# Diweddariad y Tîm Gwydnwch Cymunedol

Mae'r tîm Gwydnwch Cymunedol wedi bod yn brysur dros yr haf, gan gefnogi cymunedau, cynnal digwyddiadau a threfnu hyfforddiant digidol ar gyfer ein tenantiaid. Dyma giplun o'r hyn sydd wedi bod yn mynd ymlaen!

## Cydweithio â Chanolfan Ieuenctid Prestatyn

Yn ystod gwyliau'r haf, bu i Wasanaethau Tai, Hamdden ac Ieuenctid Sir Ddinbych ddod at ei gilydd i ddarparu gweithgareddau amrywiol i bobl ifanc. Bu iddynt drefnu sesiynau aml-chwaraeon lle cafodd y bobl ifanc gyfle i roi cynnig ar saethyddiaeth, boccia a chymryd rhan mewn twrnamaint pêl-droed. Bu iddynt hefyd gael y cyfle i goginio dros dân a chymryd rhan mewn sesiwn chwilota.

Roedd y gymuned yn gallu cael mynediad at y sesiwn hwyl i deuluoedd gyntaf a chynhaliwyd yng Nghlwb Ieuenctid Prestatyn, lle'r oedd y plant bach yn gallu cymryd rhan mewn chwarae anniben tra'r oedd y plant eraill yn mwynhau gemau chwaraeon, byrbrydau iach, celf a chrefft yn ogystal â chwarae gyda Lego enfawr!

## Digwyddiad Haf Clawdd Poncen

Bu i gymuned Clawdd Poncen wir fwynhau eu prynhawn yn ein digwyddiad haf ar y cae chwarae. Roedd digonedd o bethau ar gael i'r teuluoedd gymryd rhan ynddynt o gelf a chrefft a gweithgareddau chwaraeon i fwynhau'r trac beicio BMX dros dro, yn ogystal â gweld y cynlluniau ar gyfer y trac beicio BMX newydd a




fydd yn cael ei adeiladu yn ddiweddarach eleni.

## E-Sesiynau Cwmpas

Mae Cwmpas wedi bod yn brysur yn darparu cymorth digidol i'n tenantiaid yng Nghysgodfa, Dinbych a'r Ganolfan Phoenix yn y Rhyl.

Mae tenantiaid a phreswylwyr wedi bod yn dysgu sut i gadw eu gwybodaeth yn ddiogel ar-lein yn ogystal â chlywed am awgrymiadau a thriciau newydd yn ymwneud â'u ffonau clyfar a dyfeisiau llechen. Am ragor o wybodaeth am Cwmpas, ewch i **https://cy.cwmpas.coop/hyder-digidol-sir-ddinbych/**

Os hoffech chi unrhyw gymorth neu gefnogaeth â'ch sgiliau digidol, cysylltwch â ni ar **01824 706000** a gofynnwch am y tîm Gwydnwch Cymunedol, neu anfonwch e-bost atom ar **community.resilience@denbighshire.gov.uk**

## Digwyddiad Cynaeafu Canolfan Pengwern

Cynhaliodd Cyfeillion Pengwern a Phartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych ddigwyddiad haf yng Nghanolfan Pengwern yn dathlu popeth yn ymwneud â chynaeafu. Roedd teuluoedd yn gallu rhoi cynnig ar wasgu afalau, celf a chrefft naturiol, ymweld â stondinau bric a brac a chymryd rhan yn raffl y grŵp. Roedd y bwyd a baratowyd gan Bartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych hefyd yn boblogaidd, roedd y wên o fwynhad ar wynebau pawb yn dweud y cyfan!






## Cyflwyno ein canolfannau cymunedol


**Wrth i nosweithiau'r gaeaf gau amdanom, roeddem eisiau rhoi gwybod i chi bod gennym nifer o ganolfannau cymunedol y gallwch ddod iddynt i gwrdd â phobl newydd, dod o hyd i hobi newydd, cael cyngor a chefnogaeth neu i gael sgwrs dda! Dyma restr o'n canolfannau, rhai enghreifftiau o'r hyn a allai fod ar gael a ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn uniongyrchol.**

### Pengwern, Llangollen



**Gweithgareddau:** Dydd Mercher Lles, yn cynnwys celf a chrefft amrywiol.
**Am fwy o wybodaeth:** https://www.facebook.com/Communityhwbpengwern Ebost office@sdcp.org

### Phoenix Centre, Rhyl



**Gweithgareddau:** • Dydd Mercher Lles; • Dydd Iau Crefftau; • Boreau Coffi; • Sesiynau Galw Heibio
**Am fwy o wybodaeth:** https://www.facebook.com/profile.php?id=61561397661711 Ebost marshcom@gmail.com

### Llys Y Felin, Llanelwy



**Gweithgareddau:** • Bingo; • Bore Coffi; • Nosweithiau Cymdeithasol
**Am fwy o wybodaeth:** Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, gweler tudalen 2.

### Cysgodfa, Dinbych



**Gweithgareddau:** • Boreau Coffi; • Sesiynau Rhieni a Phlant Bach; • Gweithgareddau Natur er budd Iechyd
**Am fwy o wybodaeth:** https://www.facebook.com/profile.php?id=100083630371186 Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, gweler tudalen 2.

### Trem Y Foel, Rhuthun



**Gweithgareddau:**
- Dydd Llun: bowlio cadair / paned a sgwrs [gan ddibynnu ar y nifer sy'n bresennol] am 2.00pm.
- Dydd Mawrth: bowlio carped / paned a sgwrs [gan ddibynnu ar y nifer sy'n mynychu] am 2.00pm.
- Dydd Mercher: Bingo bar siocled am 2.00pm.
- Dydd Iau: Bwrdd pŵl, bwrdd dartiau rhwng 6pm a 8.30pm.
- Dydd Gwener: noson bingo am 7.00pm bob nos Wener drwy gydol y flwyddyn.

**Am fwy o wybodaeth:** https://www.facebook.com/profile.php?id=61556892953543

### Llygadog, Corwen



**Gweithgareddau:** • Sesiynau Rhieni a Phlant Bach; • Boreau Coffi; • Gweithgareddau Natur er budd Iechyd; • Ioga; • Bowlio Dan Do; • Fforymau Age Connect
**Am fwy o wybodaeth:** Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, gweler tudalen 2.

Gallwch hefyd ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar ein gwefan yn https://www.taisirddinbych.co.uk/canolfannau-cymunedol/ Lle gwych arall i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn eich cymuned ac am unrhyw grwpiau neu wasanaethau lleol yw www.dewis.wales. Mae ganddynt lwyth o wybodaeth a all eich helpu chi i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gweithgareddau lleol.

# Dod i'n hadnabod ni'n well

## Mark Cassidy a'i rôl o ddarparu Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

**Beth yw eich rôl**

Fi yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Eiddo Tai, ac mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros y timau sy'n cynnal atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw i'n tai. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwaith mawr fel toeau, inswleiddio waliau, ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
- Gwaith ar dai gwag, lle'r ydym yn adnewyddu ein heiddo gwag i sicrhau eu bod yn bodloni'r safon tai.
- Cydymffurfio â diogelwch i wneud yn siŵr bod yr holl systemau nwy, trydanol a thân yn ddiogel.
- Rheoli timau cefnogi eraill fel y ganolfan gyswllt a rolau cymorth gweinyddol amrywiol

**Y peth gorau am eich swydd?**

Mae'n rhaid iddo fod y bobl yr wyf yn gweithio gyda nhw'n ddyddiol! Mae gennyf dîm gwych o fy amgylch, gyda llawer o gymeriad. Mae pawb yn broffesiynol dros ben ac wedi ymrwymo i'n helpu ni i ddarparu SATC 2023 i chi.

Rwy'n mwynhau cyfarfod ein tenantiaid ac rwy'n mynychu sesiynau Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych yn rheolaidd gyda fy nghydweithwyr. I gael rhagor o wybodaeth am Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, gweler eu herthygl ar dudalen 2.

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol i chi**

Fel mae'n digwydd, nid oes diwrnod arferol yn y byd cynnal a chadw. Yr unig beth cyson am fy swydd, fel sy'n wir am lawer o swyddi eraill yn y byd, yw fy mod yn derbyn llwyth o negeseuon e-bost! (Ffenomenon yr oes fodern). Mae sawl rhan i'r rôl, gallaf fod yn delio â'r tîm cyfreithiol, y tîm cyllid, y tîm AD neu'n rhoi cefnogaeth i aelodau tîm os oes angen.

**Beth hoffech chi i'n tenantiaid wybod am eich tîm**

Mae'r safon newydd yn sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd popeth a wnawn. Yn bennaf, ein nod yw sicrhau bod ein tenantiaid yn byw mewn cartrefi diogel a chyfforddus.

Yn yr arolwg STAR diweddar, llwyddodd ein tîm i ddod y 10fed yng Nghymru am foddhad cyffredinol gydag Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw, sy'n dda iawn ac yn cymharu'n dda â landlordiaid eraill yng Ngogledd Cymru.

Nod ein tîm yw dod y darparwr atgyweiriadau gorau yng Nghymru, a gyda'r tîm sydd gennym ar hyn o bryd ac wrth wrando ar ein tenantiaid a defnyddio'r sgiliau proffesiynol o bob rhan o'r tîm, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu cyflawni hynny.



**Beth yw eich rôl gyda SATC?**

Yn syml, ein rôl yw sicrhau bod ein holl gartrefi yn cydymffurfio â'r safon. Mae rhai o'r mesurau yn anodd eu cyflawni, a byddant yn effeithio ar ein cyllidebau, ond mae'n rhaid i ni ymdrechu i fodloni'r gofynion hyn. Fel landlord, nid yw'r heriau hyn yn unigryw i ni.

Un maes pwysig yr wyf yn rhan ohono yw sicrhau ein bod ni, fel tîm tai, yn datblygu ein cynlluniau i fodloni pob agwedd o'r SATC. Byddwn yn defnyddio'r rhain i roi gwybod i Lywodraeth Cymru sut ydym yn bwriadu cyflawni cydymffurfiaeth lawn. Bydd ein cyflwyniad cyntaf i LIC ym mis Mawrth 2025.

Am ragor o wybodaeth am SATC a beth mae'n ei olygu i chi, gweler yr erthygl ar dudalen 4.





# Dod i'n hadnabod ni'n well

## Fran Williams Arweinydd Tîm Gwydnwch Cwsmeriaid



**Beth yw eich rôl?**

Arweinydd Tîm Gwydnwch Cymunedol

**Y peth gorau am eich swydd?**

Rwyf wrth fy modd gyda pha mor amrywiol yw fy rôl a'r ffaith fy mod yn gallu helpu unigolion ar draws Sir Ddinbych i gymryd camau cadarnhaol yn eu cymunedau.

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol...**

Nid oes ffasiwn beth â diwrnod arferol i aelod o'r Tîm Gwydnwch Cymunedol! Mae hyn yn rhannol oherwydd bod ein gwaith wedi'i arwain gan y cymunedau yr ydym yn eu cefnogi ac yn rhannol oherwydd bod ehangder gwaith y tîm mor amrywiol.

Rydym yn gwneud popeth, o gefnogi datblygiad prosiectau cymunedol i gyfranogiad tenantiaid a hyd yn oed gofalu am y swyddogaeth enwi strydoedd a chyfeiriadau ar gyfer y Cyngor – dywedais wrthych ei fod yn amrywiol!

Mae fy amser fel arfer yn cael ei rannu rhwng cefnogi'r tîm gyda'u hymdrechion, darparu cymorth datblygiad cymunedol 'ymarferol' i brosiectau ar draws y sir a gweithio gyda chydweithwyr i nodi ffyrdd y gallwn helpu mwy o gymunedau i gael mwy o reolaeth dros y pethau sy'n bwysig iddynt.

**Beth hoffech chi i'n tenantiaid wybod am eich tîm**

Mae'r Tîm Gwydnwch Cymunedol yma i'ch helpu chi i gymryd camau cadarnhaol yn eich cymuned; gallai hynny gynnwys unrhyw beth o drefnu gweithgareddau cymdeithasol cymdogol i sefydlu cymdeithas preswylwyr. Os oes gennych chi syniad am sut y gallwch chi weithio gyda'ch cymdogion i wella eich cymuned - hoffem eich cefnogi chi i wireddu'r syniad hwn. Cysylltwch â ni!

**Beth yw eich rôl o ran croesawu tenantiaid newydd?**

Rydym wir yn mwynhau croesawu tenantiaid newydd i'n tai newydd, ac yn ddiweddar cynhalion ddigwyddiad croeso i'r tenantiaid newydd a symudodd i mewn i Lys Elizabeth yn y Rhyl. Fel rhan o'r croeso, bu i ni roi pecyn croeso i bob tenant newydd a oedd yn rhannu llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y pethau y gallant ei wneud yn eu cymuned leol, a ble i ddod o hyd i grwpiau cymdeithasol ac ati. Bu i denantiaid hefyd roi cynnig ar wehyddu helyg, cymryd rhan mewn gemau boccia a siarad gyda'r Llyw-wyr Cymunedol. Am ragor o wybodaeth ewch i dudalennau 12 a 13.





# Rydym yn edrych ymlaen at groesawu tenantiaid newydd i Llys Elizabeth yn y Rhyl

## Tai cyngor 'hyfryd' Y Rhyl yn gosod sylfaeni ar gyfer cymuned gref

Mae tenantiaid cyngor yn datblygu cymuned gref mewn datblygiad tai sydd newydd ei orffen yn Y Rhyl.

Yn ddiweddar fe gynhaliodd Tai Sir Ddinbych ddigwyddiad ar gyfer tenantiaid Llys Elizabeth i'w helpu i gyfarfod eu cymdogion newydd a hefyd sgwrsio gyda staff am eu cartrefi newydd yn yr hen swyddfa dreth.

Fe ddaeth tenantiaid ynghyd ar dir eu cartrefi newydd i roi cynnig ar wehyddu helyg, cymryd rhan mewn gemau boccia yn erbyn ei gilydd a hefyd siarad gyda Llyw-wyr Cymunedol i ddysgu am gefnogaeth gymunedol addas pe byddai angen.

Mae Llys Elizabeth wedi ei gynllunio ar gyfer pobl 55 oed a hŷn. Fel rhan o'r datblygiad ar y safle mae 12 o gartrefi newydd yn cynnwys 8 fflat dwy ystafell wely a 4 fflat un ystafell wely. Mae pob cartref wedi'i ddylunio i gynnig lefelau uchel o effeithlonrwydd ynni i gefnogi'r tenantiaid newydd gyda chostau byw a helpu Cyngor Sir Ddinbych a Chymru i gyflawni'r targedau o ran lleihau allyriadau carbon.

Mae'r cartrefi newydd hyn yn Y Rhyl yn rhan o ymrwymiad parhaus Cyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r amseroedd aros am lety drwy fynd i'r afael â'r angen am ragor o ddarpariaeth o ran tai cymdeithasol yn y sir.

'Hollol hyfryd' oedd sut y disgrifiodd Sandra Williams ei fflat newydd hi a'i gŵr Alan yn Llys Elizabeth wrth fwynhau cyfarfod ei chymdogion newydd yn y digwyddiad a drefnwyd gan Dai Sir Ddinbych.

Dywedodd: "Mae'n wirioneddol hyfryd, alla i ddim canfod unrhyw feiau o gwbl. Mae hyn wedi bod fel ennill y loteri i ddweud y gwir, mae gennym ni le mor hyfryd.

Mae'n wirioneddol hyfryd, maen nhw (Tai Sir Ddinbych) wedi gwrando ar beth oedd yn bwysig i breswylwyr a galla i ddim dweud unrhyw beth gwael am y cartrefi newydd."

Roedd y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yng Nghyngor Sir Ddinbych, yn bresennol yn y digwyddiad i gwrdd â'r tenantiaid newydd a hefyd fe aeth o amgylch un o'r fflatiau.

Dywedodd: "Mae'r adeiladau yma wedi creu argraff fawr arna i, dwi'n edmygu faint o le oedd yn yr un a welsom, roedd dwy ystafell wely a hefyd cegin fawr a lle bwyta wedi eu cyfuno, felly roedd yn hyfryd iawn, iawn.

"Dwi hefyd wedi siarad gyda rhai o'r preswylwyr yma hefyd. Maent wedi bod yma ers tua thair wythnos ac maent yn hapus iawn, iawn. Dywedodd un eu bod eisiau symud i mewn yr eiliad y gwelsant eu fflat.

"Mae yna rai ardaloedd agored hyfryd. Er eu bod mewn fflatiau, os ydynt eisiau garddio ychydig a gwneud pethau eraill yna yn amlwg fe allant wneud hynny. Mae i gyd ar dir gwastad, gall pobl gerdded oddi yma i'r promenâd, fe allant gerdded i'r dref ac mae ar lwybr y bysiau, felly mae pawb ar eu hennill."


















# Mae trigolion Sir Ddinbych wedi elwa o £215,000 mewn Ymgyrch Credyd Pensiwn

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn cynnal ymgyrch dros y misoedd diwethaf i annog pensiynwyr i ddarganfod mwy am y Credyd Pensiwn nad ydynt o bosibl yn ei hawlio.

Mae cyfanswm o £215,000 wedi'i nodi hyd yn hyn, gyda thrigolion yn cael eu cefnogi gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Mae dros £58,000 o'r swm hwnnw wedi bod yn hawliadau Credyd Pensiwn, fodd bynnag, mae budd-daliadau eraill gan gynnwys Lwfans Gweini, Gostyngiad Treth y Cyngor a Budd-dal Tai hefyd wedi'u nodi o ganlyniad i wiriadau budd-daliadau llawn.

Ar 29 Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd newidiadau newydd mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer Taliadau Tanwydd y Gaeaf. Dim ond i unigolion sy'n derbyn Credyd Pensiwn y Wladwriaeth y byddant yn cael eu darparu bellach.

Mae mwy o bobl yn cael eu hannog i wirio a ydynt yn gymwys ar gyfer y budd-dal sy'n werth, ar gyfartaledd, £3,900 y flwyddyn ac sy'n gallu arwain at cymorth ychwanegol gan gynnwys Taliadau Tanwydd y Gaeaf, Treth y Cyngor, gofal iechyd ac os ydych yn 75 oed neu'n hŷn, trwydded deledu am ddim.

Amcangyfrifir bod gan oddeutu 80,000 o bensiynwyr ledled Cymru hawl i Gredyd Pensiwn, ond nad ydynt yn ei hawlio. Mae dau lythyr eisoes wedi'u hanfon at bensiynwyr cymwys yn Sir Ddinbych i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael a'u hannog i wneud cais yn ogystal â galwadau ffôn dilynol ac ymgysylltu â phartneriaethau.

Mae Credyd Pensiwn yn darparu cymorth hanfodol i bobl hŷn ar incwm isel, gan godi eu hincwm i leiafswm o £218.15 yr wythnos ar gyfer pobl sengl neu £332.95 ar gyfer cyplau. I'r bobl hynny sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, mae'n bosibl y bydd ganddynt hawl i arian ychwanegol os ydynt wedi gwneud darpariaethau tuag at eu hymddeoliad, megis cynilion neu bensiwn preifat. Gelwir hyn yn Gredyd Cynilion a gall fod hyd at £17.01 ar gyfer pobl sengl neu £19.04 ar gyfer cyplau.

Dywedodd Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio, Cyngor Sir Ddinbych:

"Rwy'n falch iawn bod yr ymgyrch eisoes wedi arwain at filoedd o bunnoedd o fudd-daliadau oedd heb eu hawlio nawr yn mynd i helpu pensiynwyr yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn newyddion i'w groesawu, a byddwn yn annog ffrindiau a pherthnasau i ddechrau sgwrs gyda phobl hŷn i ddarganfod pa gymorth ariannol a allai fod ar gael.

Mae hawlio Credyd Pensiwn yn bwysig oherwydd gall ddarparu mynediad at ystod o hawliadau eraill. Efallai mai ychydig o bunnoedd yn unig y gall rhai pobl ei hawlio mewn Credyd Pensiwn, felly gall deimlo nad yw'n werth ei hawlio, ond dylent ystyried y darlun ehangach gan ei fod yn agor y drws i lawer mwy o gymorth gan gynnwys y Taliad Tanwydd y Gaeaf. Gall sicrhau bod preswylwyr yn cynyddu incwm eu haelwydydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl."

Gallwch ddechrau eich cais hyd at bedwar mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch hawlio unrhyw bryd ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gall eich hawliad ond gael ei ôl-ddyddio hyd at dri mis, cyn belled a bod gennych hawl yn ystod yr amser hwnnw. Mae hyn yn golygu mai'r dyddiad olaf i wneud cais a dal i fod yn gymwys am Daliad Tanwydd y Gaeaf yw 21 Rhagfyr 2024.

Gallwch ddarganfod a ydych yn gymwys am Gredyd Pensiwn a'r swm y gallech ei hawlio gan ddefnyddio'r cyfrifiannell pensiwn - www.gov.uk/pension-credit-calculator.

Dywedodd Graham Kendall, Prif Swyddog Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych:

"Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus iawn gan ein bod wedi gallu targedu'r pensiynwyr hynny a allai fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn yn uniongyrchol drwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych.

"Rydym yn delio â nifer o breswylwyr sy'n ei chael yn anodd rheoli'i arian yn sgil costau byw, ond sydd o bosibl yn teimlo'n rhy falch i ystyried edrych i mewn i'r cymorth ariannol a all fod ar gael iddynt. Rydym yn ceisio cael gwared â rhwystrau ac annog preswylwyr i fod yn agored a thrafod eu hamgylchiadau personol.

"Rydym yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol gan gynnwys gwiriadau budd-daliadau llawn, llenwi ffurflenni, cefnogi cwsmeriaid i reoli tlodi tanwydd a darparu cyngor tai."

Os ydych yn ansicr o ran eich cymhwysedd, neu os hoffech help a chymorth gyda'ch cais, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar 01745 346 775 neu trwy eu ffurflen ar-lein - https://www.cadenbighshire.co.uk/hafan. Fel arall, gellir gwneud hawliadau ar-lein ar www.gov.uk/pension-credit neu drwy ffonio llinell hawlio Rhadffôn Credyd Pensiwn ar 0800 99 1234.



# Annog trigolion i wirio os gallant arbed arian ar eu biliau dŵr

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth gyda Dŵr Cymru er mwyn tynnu sylw at gynlluniau allai eich helpu a gwneud eich biliau dŵr yn fwy fforddiadwy.

Mae tariff HelpU Dŵr Cymru yn helpu aelwydydd drwy roi terfyn ar y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich dŵr er mwyn lleihau taliadau yn y dyfodol. Yn ôl y cwmni dadansoddeg, Policy in Practice, mae bron i 6 miliwn o aelwydydd yn y DU gymwys, ond nid ydynt yn hawlio, £900 miliwn o dariffau cymdeithasol dŵr bob blwyddyn.

Anogir pobl i wirio a ydynt yn gymwys ar gyfer y tariff HelpU, a allai arbed hyd at £200 fesul aelwyd y flwyddyn i gwsmeriaid. Mae e-byst a llythyrau yn cael eu hanfon at drigolion yn Sir Ddinbych i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael ac i annog ceisiadau. Ar hyn o bryd, dim ond 2253 o aelwydydd Sir Ddinbych wy'n elwa o'r tariff hwn gan nad yw pawb yn ymwybodol ohono.

Os ydych chi'n gymwys am dariff HelpU, fe fydd Dŵr Cymru yn rhoi terfyn ar eich bil dŵr, felly ni fydd yn rhaid i chi dalu dros swm penodol am y flwyddyn. Y ffi flynyddol ar gyfer HelpU am y flwyddyn ariannol eleni yw £290.03 (£116.52 ar gyfer dŵr, £173.51 ar gyfer carthffosiaeth).

I fod yn gymwys am y tariff, mae'n rhaid bod rhywun ar yr aelwyd yn derbyn o leiaf un budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd megis Credyd Cynhwysol neu Gredyd Pensiwn ac mae'n rhaid i incwm cyfunol blynyddol yr aelwyd fod ar y trothwy neu o dan y trothwy ar gyfer maint yr aelwyd, er enghraifft, £11,600 i un unigolyn, £17,400 i ddau unigolyn a £18,800 os oes 3 neu fwy o bobl ar yr aelwyd.

Yn ei waith ymchwil ar Gostau Byw 2023, nododd reolydd y gwasanaethau dŵr, Ofwat, fod bron i un ym mhob pedwar aelwyd yn ei chael yn anodd talu biliau dŵr ond eto dim ond 7% o'r rhai a holwyd nododd eu bod wedi derbyn cymorth ariannol gan eu cwmni dŵr. Yn y cyfamser, yn ôl y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, dim ond 16% o aelwydydd sy'n ystyried bod eu biliau dŵr yn fforddiadwy.

**Meddai Rebecca Price, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Dŵr Cymru:**

*"Rydyn ni wedi ymrwymo i roi anghenion ein cwsmeriaid yn gyntaf i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus yn y gymdeithas. Mae cydweithio'n ein helpu ni i sicrhau y gallwn barhau i helpu'r bobl fwyaf anghenus.*

*"Rydym yn cynnig ystod eang o gynlluniau allai helpu os ydych chi'n derbyn budd-daliadau neu os ydych chi ar incwm isel. Os ydych chi'n defnyddio mwy o ddŵr yn sgil maint yr aelwyd neu gyflwr meddygol, mae tariff Terfyn Bil -WaterSure Cymru yn rhoi terfyn ar faint y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich dŵr. Fel arall, mae Cronfa Cymorth Cymuned yn gynllun sy'n cynnig cefnogaeth tymor byr i aelwydydd sy'n gweithio sy'n cael trafferth fforddio'r hanfodion.*

*"Rydym yn annog trigolion Sir Ddinbych i gysylltu i gael gwybod sut y gallwn eich helpu gyda'ch taliadau ac i drafod y dewisiadau gorau wrth symud ymlaen."*

**Dywedodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:**

*"Dylai pawb allu cael mynediad at ddŵr fforddiadwy. Byddwn yn annog holl drigolion Sir Ddinbych i wirio os ydynt yn gymwys am filiau dŵr rhatach.*

*"Nid yw nifer o bobl ymwybodol eu bod yn gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn felly mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw atynt i sicrhau bod y preswylwyr yn gwneud y mwyaf o incwm eu haelwyd.*

*"Rydym yn awyddus i gynnig cymorth a chefnogaeth, mewn cydweithrediad â'n partneriaid, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n wynebu trafferthion o ran costau dydd i ddydd er mwyn cefnogi twf economaidd a chynorthwyo cymunedau i ffynnu.*

*"Os ydych yn ei chael hi'n anodd talu neu os ydych yn poeni am unrhyw un o'ch biliau, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am gyngor cyfrinachol, am ddim."*

Am fwy o wybodaeth am y cynlluniau i gyd ac i wneud cais ar-lein, ewch i **www.dwrcymru.com/costaubywsirddinbych**. Os ydych yn ansicr o ran eich cymhwysedd, neu os hoffech help a chymorth gyda'ch cais, cysylltwch â **Dŵr Cymru ar 0800 052 0145** neu Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar **0808 278 7933 / www.cadenbighshire.co.uk**. Fel arall, gwiriwch beth allech chi fod â hawl iddo gyda'r cyfrifiannell budd-daliadau – **www.gov.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau.**

Funded by UK Government

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# SIR DDINBYCH YN GWEITHIO

Gwasanaeth cefnogi AM DDIM i unrhyw un sy'n byw yn Sir Ddinbych!



## MEDDAI IAN, MENTOR TAI A CHYFLOGAETH Y GYMUNED GWEITHIO SIR DDINBYCH:

**"Helo, Ian ydw i, Mentor Cyflogadwyedd Tai Cymunedol yn Sir Ddinbych yn Gweithio. Rwyf yma i'ch helpu chi i ddod o hyd i waith a goresgyn unrhyw rwystrau o'ch blaenau.**

**P'un a ydych angen cymorth gyda CV, cais am swydd, neu ymarfer ar gyfer cyfweliad, rwyf yma i'ch helpu.**

**Gallaf hefyd ddod o hyd i gyrsiau hyfforddiant i chi a threfnu cyllid ar eu cyfer.**

**Os ydych yn teimlo'n ansicr neu os oes angen mwy o gefnogaeth arnoch, mae ein tîm lles yma i roi hwb i'ch hyder a sicrhau eich bod yn barod ar gyfer y cam nesaf.**

**Rydym hyd yn oed yn cynnig lleoliadau gwaith tri mis o hyd â thâl lle gallwch gael profiad, gweithio'n rhan amser a dod yn gyfforddus mewn rôl newydd.**

**Beth am gydweithio i'ch cael chi i'r lle rydych chi eisiau bod!" Cofrestrwch heddiw:**

COFRESTRWCH HEDDIW:

www.sirddinbych.gov.uk

Sir Ddinbych yn Gweithio / Working Denbighshire

Cymunedau am Waith / Communities for Work



# COSTAU BYW
# Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bob un ohonom. Mae pris bwyd a nwyddau yn uwch, mae costau gwresogi ein cartrefi wedi cynyddu, mae tanwydd yn ddrutach, ac nid yw incwm pobl yn ymestyn mor bell ag yr oedd.

Os ydych yn ei chael hi'n anodd gyda'ch biliau, yn cael trafferth rheoli dyledion, ddim yn siŵr a yw eich cartref mor effeithlon o ran ynni ag y gallai fod, neu eisiau tawelwch meddwl yn gwybod eich bod yn hawlio popeth mae gennych hawl iddo, mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yma i'ch helpu. Rydym yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth gyfrinachol, ddiduedd am ddim.

Gyda sesiwn ar wneud y mwyaf o incwm, fe wnawn eich helpu i sicrhau eich bod yn hawlio beth mae gennych hawl iddo a'ch bod yn derbyn y swm cywir o fudd-dal. Fe wnawn eich helpu i ddelio ag unrhyw ddyledion sydd gennych. Gallwn eich cyfeirio at gynlluniau a phrosiectau mwy (boed hynny ar gyfer boeleri newydd neu ddeunydd inswleiddio drwy Nyth, neu helpu gyda grantiau sydd ar gael), ac fe helpwn ni chi gyda chyngor ymarferol ar arbed ynni a phethau bach y gallwch eu gwneud.

Wrth i gostau byw barhau i gynyddu, mae'n bwysig eich bod yn gallu cael yr holl gefnogaeth rydych ei hangen cyn argyfwng, felly cysylltwch heddiw am gyngor annibynnol, diduedd a chyfrinachol am ddim

Ffoniwch ni ar **08082 787 933**
neu anfon e-bost **advice@dcab.co.uk**

cyngor ar bopeth | citizens advice | Sir Ddinbych Denbighshire

## Dyma rai gwefannau defnyddiol am fwy o gyngor a chefnogaeth:

**Cyngor Sir Ddinbych**
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor-arian/cymorth-costau-byw/cymorth-costau-byw.aspx

**Money Helper UK**
https://www.moneyhelper.org.uk/cy

i gymorth. Mae'n dod â chefnogaeth a gwasanaethau tri darparwr cyngor ariannol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth ynghyd: y Gwasanaeth Cyngor Ariannol, y Gwasanaeth Cyngor ar Bensiynau a Pension Wise.

**Turn2us**
https://www.turn2us.org.uk/

Mae Turn2us yn elusen yn y DU sy'n mynd i'r afael ag ansicrwydd ariannol. Mae'n cynnig gwasanaethau i gyfrif pa fudd-daliadau mae gennych hawl iddynt ac yn cynnal llinell gymorth i roi cymorth a gwybodaeth i bobl sydd ddim yn gallu defnyddio'r we neu'n cael trafferth gwneud hynny. Rhif eu llinell gymorth yw 0808 802 2000.

**StepChange**
https://www.stepchange.org/

Mae StepChange yn cynnig cyngor arbenigol, am ddim am ddyledion naill ai ar-lein neu dros y ffôn. Gallwch siarad gyda nhw am eich dyledion, a byddant yn ystyried eich sefyllfa ariannol a'r hyn y gallwch ei wneud nesaf. Rhif eu llinell gymorth ar ddyledion yw 0800 138 111.

**Iechyd Meddwl – Samariaid**
https://www.samaritans.org/cymru/samaritans-cymru/

Os ydych yn meddwl ei fod yn argyfwng neu os hoffech siarad gyda rhywun ar y ffôn, ffoniwch y Samariaid. Gallwch ffonio llinell gymorth y Samariaid ar 116 123 ddydd Llun i ddydd Sul ar unrhyw adeg, am ddim o ffôn symudol neu linell dir.

# Pwy yw fy swyddog tai?

**Eryrys, Llanarmon Yn Ial, Llanbedr D C, Llanferres, Llanrhaeadr, Ruthin**

Sian Frost

**Bontuchel, Betws G G, Clawddnewydd, Clocaenog, Corwen, Cyffylliog, Cynwyd, Gwyddelwern, Llandrillo, Llanelidan, Llanfair D C, Melin Y Wig, Pwllglas**

Dawn Barraclough

**St Asaph, Trefnant**

Louise Ellams

**Prestatyn**

Banastre Avenue, Caradoc Road, Ceg Y Ffordd, Central Avenue, Conwy Grove, Dawson Close, Dawson Court, Dawson Crescent, Dawson Drive, Ffordd Isa, North Avenue, South Avenue, St Andrews Drive.

Carmel Rider

**Prestatyn**

Brynteg, Cwrt Dowel, Llys Bodnant, Llys Llen, Llys Offa, Llys Owain, Pen Y Cae, Pendyffryn Gardens, Tywyn Ganol, Tywyn Isaf

Jeff Evans

**Bryneglwys, Carrog, Gellifor, Glyndyfrdwy, Graigfechan, Llandegla, Llandyrnog, Llangollen, Llantysilio, Llanynys, Rhewl**

Linda Mair Jones

**Bodfari, Henllan, Nantglyn, Saron**

Helen Stanfield

**Denbigh**

Blaen Y Coed, Bron Y Crest, Bryn Seion, Bryn Siriol, Clwyd Avenue, Cysgodfa, Factory Place, Henllan Street, Llwyn Mair, Maes Yr Eglwys, Pen Y Graig, Post Office Lane.

Helen Stanfield

**Denbigh**

Bod Nant, Bryn Garth, Bryn Stanley, Lloyd Avenue, Llwyn Eirin, Lon Llewelyn, Maes Hyfryd, Maes Y Dre, Maes Y Goron, Maesglas Avenue, Myddleton Avenue, Smithfield Road

Stephen Tomes

**Dyserth, Meliden**

Louise Jones

**Rhyl**

Bath Street, Brighton Road, Brynhedydd Close, Eastville Avenue, Edgbaston Road, Elwy Drive, Ffordd Anwyl, Llys Brunswick, Lynwood Drive, Mayfield Grove, Oakville Avenue, Princess Elizabeth Avenue, Rhyl Coast Road, Sholing Drive, Weston Court.

Carmel Rider

**Rhyl**

Arfon Grove, Council Terrace, Cramer Court, Ellis Avenue, Ffforddlas, Frederick Street, Gwalia Avenue, Kingsley Avenue, Marsh Road, Menai Avenue, Rhydwen Close, Rhydwen Drive, St Davids Square, Victoria Road.

Linda Streetly

**Rhyl**

Cae Thorley, Colin Drive, Foel View Road, Geufron, Glyn Avenue, Hen Afon Road, Holland Park Drive, Howell Drive, Leonard Avenue, Llys Elizabeth, Llys Morgan, Llys Pen Y Cefndy, Llys Y Gerddi, Mona Terrace, Pendre Ave, Penymaes Ave, Prince Edward Ave, The Crescent, Thornley Ave, Trellewelyn Close, Trellewelyn Road, War Memorial Court

Kath Sparrow

**Rhyl**

Maes Arthur, Maes Bryn Melyd, Maes Famau, Maes Gaer, Maes Isaf, Maes Maenefa, Maes Menlli, Maes Y Cwm, Maes Y Parc.

Jeff Evans

**Rhyl**

Aled Avenue, Brookes Avenue, Buckley Avenue, Cefndy Road, Ellis Avenue, Gwynfryn Avenue, Llys Glan Aber, Meredith Close, Meredith Crescent, Plas Cyril, Walford Avenue, Warren Road.

Lori Arnold

**Rhyl**

Vale Road, Victoria Road, William Street.

Paula Stubbs

**Bodelwyddan, Cefn Meiriadog, Cwm, Rhuallt, Rhuddlan, Waen**

Paula Stubbs



# Pum awgrym dydd Gwener Nadoligaidd

Nid pawb sydd yn edrych ymlaen at y Dolig eleni, gan eu bod yn poeni am arian, gwresogi, talu'r biliau ac ati. Ond roeddem ni'n meddwl y byddai'n syniad da rhannu awgrymiadau y mae rhai o'n tenantiaid wedi sôn amdanynt, efallai y byddant yn rhoi ychydig o hwyl yr ŵyl i chi.




**Pum Dydd Gwener tan 'Dolig, Awgrym 1** Cadwch at gyllideb y Dolig os allwch chi. Mae'n hawdd iawn mynd i ddyled adeg y Nadolig, felly gwnewch gyllideb a chadw ati. I gael cyngor am sut i gynilo ar gyfer y Nadolig, dyma gynllunydd arian da iawn gan Money Advice Service. https://www.moneyhelper.org.uk/cy




**Pum Dydd Gwener tan 'Dolig, Awgrym 2** Siopa bwyd Nadolig! Beth am ychwanegu un neu ddau o eitemau bwyd Nadoligaidd yr wythnos i'r rhestr siopa, yn hytrach na phrynu pob dim yr un pryd, gan ledaenu'r gost? I gael rhagor o gyngor ewch i https://www.moneyhelper.org.uk/cy




**Pum Dydd Gwener tan 'Dolig, Awgrym 3** Cyn i chi brynu anrhegion i deuluoedd a ffrindiau, gofynnwch iddynt beth maen nhw ei angen, neu awgrymwch beth fyddai'n ddefnyddiol i chi eleni? Does dim rhaid i anrheg fod yn rhywbeth materol, gall fod yn weithred o garedigrwydd sy'n golygu cymaint mwy. Er enghraifft:

- Cynigiwch noson heb y plant i rywun, neu allen nhw ddefnyddio rhywun i warchod y plant am ddim?
- Noson lle nad oes rhaid iddynt goginio, neu wneud pryd cartref?
- Noson i mewn gyda ffrindiau, chwerthin a dal i fyny.
- Efallai bod rhywun angen diod gynnes, sgwrs a rhywun i wrando arnynt?
- Helpu i wneud tymor yr ŵyl yn un llachar drwy fod yno i'ch gilydd?

Beth bynnag ydi o, fe allwn ni gyd helpu ein gilydd mewn rhyw ffordd gyda gweithred o garedigrwydd.




**Pum Dydd Gwener tan 'Dolig, Awgrym 4** Peidiwch ag anghofio amdanoch chi! Gall y cyfnod hwn o'r flwyddyn fod yn anodd ac achosi straen. Felly rhowch amser i chi eich hun a mynd allan i'r awyr agored, mynd am dro i'r amryw o leoliadau hyfryd yn Sir Ddinbych a chlirio'r pen! I gael syniadau am lwybrau cerdded, ewch i https://www.denbighshirecountryside.org.uk/cerdded/




**Pum Dydd Gwener tan 'Dolig, Awgrym 5** Treuliwch amser gyda phobl os allwch chi, gwenwch, mwynhewch chwerthin a gwyliwch rywbeth digri' ar y teledu… ond yn fwy na dim… ceisiwch gael ychydig o hwyl!